**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/02605/25

Jonathan Morgan
Y Cadeirydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

9 Rhagfyr 2025

Annwyl Jonathan

Mae'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd gydag aelodau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 23 Hydref 2025. Diolch am eich presenoldeb chi a'ch tîm yn y cyfarfod. Roedd yn gyfle gwych i dynnu sylw at y gwaith rydych chi a'ch tîm yn ei gyflawni ar gyfer y cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu. Roeddwn yn ddiolchgar am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pecyn hwn yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael drwy ddilyn y ddolen hon Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r llythyr hwn yn nodi fy myfyrdodau o'r cyfarfod. Byddwn yn parhau i adolygu'r themâu hyn yn ein cyfarfodydd adolygu rheolaidd.

Er fy mod yn cydnabod ymateb effeithiol y bwrdd iechyd ynghylch y to sy'n methu yn ysbyty Tywysoges Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, rwy'n parhau i fod yn bryderus nad oedd y Bwrdd wedi cael eu cynnwys yn ddigonol ar y difrifoldeb a'r risg sy'n gysylltiedig â'r mater hwn i alluogi datrysiad rhagweithiol ac ystyriol. Fe wnaethoch chi dynnu sylw at y gwersi a ddysgodd y Bwrdd o'r digwyddiad hwn a'r dysg sy'n gysylltiedig ag ymgorffori adeiladau newydd yn eich ystad, a bod y Bwrdd yn awr yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg. Rwy'n deall bod rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu hwn wedi'i rhannu â swyddogion Llywodraeth Cymru, ac mae angen i ni sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu'n effeithiol ar draws GIG Cymru.

Gofynnais am sicrwydd gan y Bwrdd bod llywodraethiant priodol a gwell bellach ar waith ar draws y sefydliad, yn dilyn y pryderon difrifol ynghylch gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a arweiniodd at uwchgyfeirio'r mesurau arbennig. Tynnodd y Bwrdd sylw at y dulliau sydd nawr ar waith yn ymwneud â chreu Bwrdd cydlynol ac integredig gyda chefnogaeth sesiynau briffio rheolaidd yn ymwneud â materion ansawdd a diogelwch a rhoi gwell prosesau ar waith ar gyfer codi llais yn ddiogel. Fe wnaethoch chi fy sicrhau bod y prosesau hyn yn rhai ar gyfer y sefydliad cyfan ac nid ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a newyddenedigol yn unig. A wnewch chi rannu gyda mi y dull a ddefnyddir gan y Bwrdd i gael trosolwg ar effeithiolrwydd ac effaith y prosesau hyn?

Fe wnaethoch chi amlinellu sut mae'r sefydliad wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf trwy gryfhau'r tîm gweithredol, sicrhau bwrdd sefydlog a sefydlu gwell llywodraethiant a strwythurau bwrdd. Mae hyn wedi'i ategu gan yr ailstrwythuro sefydliadol a symud i fodel grŵp gofal integredig, sydd wedi profi'n effeithiol. Mae heriau'n parhau mewn rhai arbenigeddau clinigol, ond fe wnaethoch chi esbonio'r strategaeth arweinyddiaeth glinigol sy'n cael ei hategu gan arweinyddiaeth wasgaredig.

Codais y pryderon sydd wedi'u rhannu gyda mi droeon mewn perthynas ag ymagwedd y Bwrdd o ran gweithredu newidiadau gwasanaeth dros dro, gan nodi bod tryloywder y broses newid gwasanaeth o fewn y Bwrdd wedi'i gwestiynu gan rai o'ch rhanddeiliaid. Fe wnaethoch dynnu sylw at y ffaith bod y Bwrdd yn gwneud newidiadau mewn ffordd dryloyw, yn seiliedig ar anghenion clinigol, arferion gorau clinigol, drwy wrando ar bawb a thrwy ymgysylltu'n weithredol â Llais cyn gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon. Wedi ystyried, credaf fod angen i'r Bwrdd ystyried eu goruchwyliaeth o'r prosesau hyn, gan sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed.

Fe wnaethoch gadarnhau bod y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan nodi bod diffyg bach ym mis 6 gyda rhywfaint o waith i'w wneud ar gyflawni'r arbedion a'r mesurau lliniaru ariannol angenrheidiol. Wrth nodi'r risgiau cyflawni, rydym yn cydnabod y sefyllfa honno ac fe wnaethom drafod y dewisiadau a gymerodd y Bwrdd eleni i alluogi cynllun sy'n gytbwys yn ariannol.

Mae nifer o faterion recriwtio a chadw sy'n cael eu trin orau ar lefel ranbarthol, ac fe wnaethoch amlinellu dull gweithredu'r Bwrdd, gydag enghreifftiau wedi'u rhannu yn ymwneud â phatholeg ac orthopaedeg. Rwy'n disgwyl y bydd pwyllgor rhanbarthol De-ddwyrain Cymru y gofynnais am ei sefydlu yn arwain yr ymgyrch i weithio'n rhanbarthol ac rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd fod â ffocws sylweddol yn y maes hwn.

Yn ogystal â gweithio'n rhanbarthol, rhaid i symud tuag at ddarparu ystod ehangach o wasanaethau sylfaenol a chymunedol gyda gofal yn agosach at adref fod yn rhan o'r model cyflawni yn y dyfodol. Trafodwyd y datblygiadau a wnaed gan y sefydliad yn y maes hwn gan gynnwys ysbyty yn y cartref, modelau triniaeth rhithwir sy'n ymgorffori meddyg teulu a meddyg ymgynghorol ysbyty, defnyddio technoleg ddigidol a datblygu ysbytai cymunedol.

Mae'r cyfnodau aros hir am ofal a gynlluniwyd wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf ac fe wnaethoch chi gadarnhau y byddai'r sefydliad yn cael gwared ar yr arosiadau 2 flynedd erbyn diwedd mis Mawrth 2026, gyda'r gobaith o gyflawni hyn yn gynt. Gwnaed ymrwymiad gan y Bwrdd i glirio pob un o'r arosiadau 8 wythnos am brofion diagnostig a bod yr holl faterion cyflwyno data wedi'u datrys. Fe wnaethoch gadarnhau bod gan y Bwrdd drosolwg o ran sicrhau bod cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel wrth aros trwy'r timau cadw mewn cysylltiad, WISE a'r gwasanaethau aros yn iach.

Rhannwyd cynnydd da mewn perthynas â gwasanaethau menywod ac fe wnaethoch dynnu sylw at sut mae cydgrynhoi gwasanaethau'r fron yng ngwasanaeth Lili Wen Fach wedi gwella'r llwybr i gleifion, wedi arwain at amseroedd aros llai a gwell profiad i gleifion. Rwy'n disgwyl i'r dull hwn gael ei atgynhyrchu ar draws gwasanaethau eraill wrth i chi greu'r hwb i fenywod yn nes ymlaen eleni, gan gynnwys gynaecoleg.

Codais bryderon a rannwyd gyda mi yn ymwneud â'r newidiadau mewn patrymau sifftiau nyrsys. Fe wnaethoch chi esbonio pam fod angen newid a'r ymgynghoriad parhaus sydd ar waith cyn i'r Bwrdd wneud penderfyniad gwybodus.

Fel rhan o'ch sylwadau i gloi, fe wnaethoch dynnu sylw at yr agenda iechyd y cyhoedd – roeddech chi'n teimlo mai dyna oedd un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r GIG yn y blynyddoedd nesaf ac y byddai'r Bwrdd yn canolbwyntio ar hyn fel rhan o'r strategaeth glinigol a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

I grynhoi, roedd hwn yn gyfarfod defnyddiol – mae'r Bwrdd yn gwneud cynnydd da mewn llawer o feysydd. Rwy'n disgwyl i'r Bwrdd fod â throsolwg briodol ar rheolaeth weithredol ac ariannol i sicrhau cydbwysedd ariannol, dim arosiadau 104 wythnos, gwell sefyllfaoedd o ran apwyntiadau diagnostig a chanser, gwelliannau parhaus mewn gofal brys a gofal mewn argyfwng a dull effeithiol, seiliedig ar risg, o reoli ystadau. Mae'n hanfodol eich bod chi fel Bwrdd yn cynnal rheolaethau llywodraethu o ansawdd da sy'n sicrhau y gellir codi materion a phryderon gyda'r Bwrdd mewn modd agored, sy'n cefnogi arweinyddiaeth glinigol ar bob lefel ac yn galluogi rheoli risgiau clinigol yn effeithiol. Rhaid i chi ganolbwyntio ar wella ansawdd a rheolaeth, ac rwy'n disgwyl gweld proses gadarn i sicrhau ymgysylltiad effeithiol wrth gynllunio newidiadau gwasanaeth. Yn olaf, wrth i chi gynllunio ar gyfer y dyfodol, rwy'n disgwyl i'r newid ffocws i ofal sylfaenol a chymunedol ac ymateb i iechyd y cyhoedd i fod yn brif ysgogwyr o ran eich ymagwedd.

Diolch eto am fod mor agored ac am gytuno i fod y sefydliad iechyd cyntaf yn y rownd hon o gyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care